OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 1385 (Cy.135)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) (Diwygio) 2002

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *16 Mai 2002* |
| *Yn dod i rym - -* | *17 Mai 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 22(6), (7), (8), (9), (10), (11) a (12), 105 a 106 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**):

**Enwi, cychwyn, a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) (Diwygio) 2002 a deuant i rym ar 17 Mai 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Diwygiad i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru)**

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001 (**2**) fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff (4) o Reoliad 5 rhowch:

"(4) Ni chaiff eitem fusnes ei hystyried mewn cyfarfod oni bai bod—

(a) copi o'r agenda gan gynnwys yr eitem (neu gopi o'r eitem) yn agored i aelodau o'r cyhoedd ei archwilio yn unol â pharagraff (1):

(i) am o leiaf dri diwrnod clir cyn y cyfarfod; neu

(ii) pan fydd y cyfarfod yn cael ei gynnull ar rybudd byrrach, o'r amser y bydd y cyfarfod yn cael ei gynnull; neu

(**1**) 2000 p.22
(**2**) O.S.2001/2290 (Cy. 178)

(b) cadeirydd y cyfarfod o'r farn, oherwydd amgylchiadau arbennig, a fydd yn cael eu nodi yn y cofnodion, y dylai'r item gael ei thrafod yn y cyfarfod fel mater o frys.”.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66 (1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*J.E. Randerson*
Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

16 Mai 2002

(**3**) 1998 p.38

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Gwnaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001 o dan adrannau 22(6), (7), (8), (9), (10), (11) a (12), 105 a 106 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 er mwyn rheoleiddio gwahanol faterion mewn perthynas â'r busnes a weithredir gan awdurdodau lleol sydd yn gweithredu trefniadau gweithrediaeth. Gwneir y Rheoliadau yma drwy ddefnyddio'r un pwerau i wneud ychwanegiad i'r Rheoliadau blaenorol hynny.

Mae Rheoliad 2 yn gwneud darpariaeth i gadeirydd cyfarfod o'r weithrediaeth, neu bwyllgor o'r weithrediaeth, o awdurdod lleol wneud ychwanegiadau at agenda'r cyfarfod os yw'r person hynny o'r farn y dylid ystyried y mater ychwanegol, yn rhinwedd amgylchiadau arbennig, fel mater o frys.